BWLETIN POLISI CYTÛN

GORFFENNAF/AWST 2016

OBLYGIADAU YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD



Methodd Llywodraeth Cymru â chyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu yn ôl y disgwyl cyn diwedd tymor y Cynulliad fis Gorffennaf oherwydd bod rhaid ei hail-ystyried yn wyneb canlyniad y refferendwm ar Fehefin 23, pan bleidleisiodd mwyafrif pleidleiswyr Cymru a Lloegr o blaid ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae hyn yn darlunio natur bell-gyrhaeddol oblygiadau'r canlyniad, a fydd yn dylanwadu ar bob maes polisi dros y blynyddoedd nesaf. Dim ond fesul tipyn y daw'r camau nesaf i'r amlwg, wrth i Lywodraeth newydd y DU dan arweiniad Theresa May, a Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r holl gamau angenrheidiol. Fe ymwelodd Mrs May â Senedd Cymru i gwrdd â Carwyn Jones yn fuan ar ôl ei phenodi, ac addawodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyfranogi yn y broses. Mae Mr Jones yntau wedi addo y bydd yn ymgynghori'n eang â phleidiau gwleidyddol a mudiadau eraill yng Nghymru.

Mae i natur y canlyniad – gyda mwyafrif pleidleiswyr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn pleidleisio i aros – oblygiadau mawr hefyd ar gyfer cyd-berthynas gwahanol wledydd Ynysoedd Prydain i'r dyfodol, ac i'r perwyl hwnnw fe alwyd cyfarfod arbennig o Gyngor Prydain ac Iwerddon yng Nghaerdydd ar Orffennaf 22 i ddechrau trafod posibiliadau i'r dyfodol.

Mae Carwyn Jones wedi dweud mai ei ddwy 'linell goch' parthed y dyfodol yw mynediad busnesau Cymru yn ddi-rwystr i'r farchnad sengl, a pharhad cyllid i Gymru yn cyfateb i'r cyllid bresennol ddaw drwy gynlluniau'r Undeb Ewropeaidd. Fe gynhaliodd Plaid Cymru gynhadledd arbennig ar Orffennaf 16 i benderfynu ei hagwedd hi at y trafodaethau, a chyhoeddwyd penderfyniad manwl am ei nodau byrdymor a hirdymor ar ei hôl. Mae Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi ymchwiliad i'r effaith ar Gymru.

Mae mudiadau eraill yng Nghymru yn dechrau ymgynghori â'u haelodau ynghylch eu hymatebion. Ar faes Sioe Frenhinol Cymru, er enghraifft, fe welwyd NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru yn dechrau trafod pa fath o bolisi amaethyddol fydd yn addas ar gyfer Cymru y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, wrth gwrdd â'r Ysgrifennydd newydd yn y Cabinet, Lesley Griffiths, yn ogystal â rhannu gwybodaeth â'u haelodau am sut y bydd y trefniadau presennol yn parhau tra bod Cymru yn parhau o fewn yr Undeb.

Mae rhai o eglwysi Cymru wedi cytuno ffurfio Gweithgor i gydlynu eu cyfraniad i'r holl drafod a ddaw, a chyflwynwyd gwahoddiad i holl aelodau Cytûn fod yn rhan o'r cyfraniad hwnnw. Gellir cael rhagor o fanylion am y gwaith hwn gan y Cadeirydd, Noel Davies – noeldavies@aol.com

Mae Blog Law and Religion UK yn cyhoeddi cyfres werthfawr o'r enw Brexit Basics am oblygiadau cyfreithiol y gwahanu sydd i ddod.

DEDDFAU NEWYDD I GYMRU

Er nad oedd modd cyhoeddi rhaglen gyfan ar gyfer y Llywodraeth, mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi cyhoeddi y byddant am gyflwyno chwech o ddeddfau newydd yn ystod 2016-17, o dderbyn cymeradwyaeth y Cynulliad. Mae tri ohonynt eisoes ar y gweill:

- Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), a fydd yn cyflwyno un o drethi newydd Cymru erbyn Ebrill 2018, a hefyd yn cyflwyno egwyddorion cyffredinol ynglŷn â threthiant datganoledig. Mae'r ddolen uchod yn cysylltu â Bil drafft anorffenedig, a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori ar faterion technegol ac egwyddorol.
- Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Fe ail-gyflwynir y Bil hwn, a drechwyd ar ddiwrnod olaf y pedwerydd Cynulliad (gweler Bwletin Polisi Mawrth 2016), ond heb y cymalau dadleuol yn cyfyngu ar ddefnydd dyfeisiadau anadlu nicotin (e-sigarennau). Fe fydd yn darparu ar gyfer gwell cynllunio ynghylch fferyllfeydd a thai bach cyhoeddus ac yn rheoleiddio triniaethau megis tatŵio a thyllu'r corff.
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yr ymgynghorwyd yn ei gylch ar ddiwedd 2015.

Y tri mesur arall a ddisgwylir yw:

- Bil yn cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi datganoledig.
- Bil a fydd yn dirymu y rhannau o Ddeddf Undebau Llafur 2016 y Deyrnas Unedig y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn ymwneud â materion datganoledig, megis cyfyngu ar hawliau undebau llafur o fewn sector cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dweud nad ydynt yn cytuno fod hawl gan y Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn, ac fe all hyn droi yn ddadl o flaen y Goruchaf Lys.
- Bil yn diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael gan denantiaid yn y sector tai cyhoeddus yng Nghymru.

Oddi ar y cyhoeddiad gwreiddiol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant, wedi dweud y gellir disgwyl Bil i rwystro'r amddiffyniad o "gystwyo rhesymol" parthed curo plant (h.y. Bil yn atal smacio) yn sesiwn 2017-18, a disgwylir Bil Awtistiaeth yn nes ymlaen yn y Pumed Cynulliad.

Fe fydd yr holl deddfwriaeth yma yn cael ei monitro ar ran yr eglwysi gan y Grŵp Laser, sy'n cynnwys swyddogion eglwys a chymdeithas (cyflogedig neu wirfoddol) yr enwadau sy'n aelodau yn Cytûn, y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru a rhai mudiadau eraill (megis Housing Justice Cymru a Chymdeithas y Plant yng Nghymru). Gellir cael rhagor o fanylion gan eich swyddog enwadol neu gan Swyddog Polisi Cytûn (gweler tudalen 6).

YR HINSAWDD YN DAL I NEWID....

Ym mis Hydref 8-16, bydd y glymblaid Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru, sydd yn cynnwys Cymorth Cristnogol, Cafod a Tearfund, yn galw ar eglwysi i drefnu digwyddiadau lobïo lleol yn eu hetholaethau i atgoffa gwleidyddion bod yr hinaswdd yn dal i newid.

Bydd hyn yn gyfle i ail-gydio yn y sgyrsiau gydag Aelodau Seneddol a ddechreuwyd yr haf diwethaf pan aeth nifer helaeth o Gymru i San Steffan i'w gweld. Bydd y glymblaid yn pwyso am gynllun gweithredu cadarn gan Lywodraeth y DU fydd yn amlinellu sut y bydd targedau Deddf Newid Hinsawdd 2008 (gostwng allyriad carbon o 80% erbyn 2050) yn cael eu cyrraedd. Disgwylir i'r cynllun gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2016, felly mis Hydref yw'r cyfle allweddol i ddylanwadu.

Bydd hwn hefyd yn gyfle i gwrdd ag Aelodau newydd y Cynulliad. Bydd y glymblaid yn galw am gynlluniau uchelgeisiol i daro'r targedau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn dilyn y rali llwyddiannus (ond gwlyb) ar risiau'r Senedd fis Tachwedd diwethaf.

Wales Bill

[AS AMENDED IN COMMITTEE]

CONTENTS

PART 1

CONSTITUTIONAL ARRANGEMENTS

Permanence of the National Assembly for Wales and Welsh Government

1 Permanence of the National Assembly for Wales and Welsh Government

Convention about Parliament legislating on devolved matters

2 Convention about Parliament legislating on devolved matters

Legislative competence

3 Legislative competence

4 Wales public authorities

Elections

5 Power to make provision about elections

6 Timing of elections

7 Electoral registration: the digital service

BIL CYMRU

Mae Bil Cymru wedi cychwyn ar ei daith drwy Senedd San Steffan, gydag ymatebion cymysg gan arbenigwyr academaidd a gwleidyddion Cymreig i'w gynnwys. Fe fu Cytûn yn rhan o sesiwn ymgynghori Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cymru am y Bil ar Orffennaf 11, ac rydym wedi ymateb i gais am adborth gan Swyddfa Cymru i'r Gweithgor a sefydlwyd rhwng y ddwy lywodraeth i drafod sut y mae deddfwriaeth Cymru yn effeithio ar awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr wrth iddi ddatblygu.

Cafwyd dau ddiwrnod o bwyllgora uwchben y Bil yn siambr Tŷ'r Cyffredin. Cyflwynwyd nifer o welliannau gan y gwrthbleidiau yno – llawer ohonynt yn seiliedig ar welliannau a ddrafftiwyd gan Lywydd y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru - ond nis derbyniwyd yr un ohonynt hyd yma. Mae Cytûn wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg am gymalau yn y Bil fel y mae'n sefyll sydd yn awgrymu y bydd yna gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu parthed y defnydd o'r iaith gan gyrff Llywodraeth y DU sy'n gweithredu yng Nghymru.

Ni wyddys eto sut y bydd y Llywodraeth am addasu Bil Cymru, a luniwyd ar sail aelodaeth yn yr Undeb Ewropeaidd, yn dilyn y refferendwm. Mae'n bosibl y byddant yn bwrw ymlaen â'r mesur ar ei ffurf bresennol ac yna yn ei ddiwygio mewn deddfwriaeth bellach wrth ymadael â'r Undeb maes o law.

Cynhelir y drafodaeth nesaf ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar Fedi 12, a bydd wedyn yn mynd i Dŷ'r Arglwyddi. Gellir darllen testun y Bil fel ag y mae'n sefyll ar hyn o bryd yma.

YMGYNGHORIADAU

Mae Llywodraeth Cymru, Pwyllgorau'r Cynulliad a Phwyllgor Materion Cymreig San Steffan, ynghyd â nifer o gyrff cyhoeddus eraill, yn cynnal ymgynghoriadau rheolaidd â'r cyhoedd. Mae WCVA yn cyhoeddi rhestr gynhwysfawr ar ei gwefan. Nid oes modd ymateb i bob un o'r rhain, ond fe wna Cytûn a'i aelodau ein gorau i ymateb i'r pwysicaf yn eu plith. Dyma rai o'r ymgynghoriadau sy'n digwydd dros yr haf gyda'u dyddiadau cau. Cysylltwch â Cytûn (gweler y dudalen gefn) os hoffech gyfrannu at ymateb neu am wybod mwy.

Masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau	**26/08/2016**
Ymgynghoriad ar gam 1 y broses o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith	**20/09/2016**
Iaith, gwaith a gwasanaethau dwyieithog – y Gymraeg a Llywodraeth Leol	**09/09/2016**
Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	**09/09/2016**
Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac addysg i waith ieuenctid	**09/09/2016**
Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith am Gyfraith Gynllunio yng Nghymru	**30/09/2016**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Is-ddeddfwriaeth a chanllawiau drafft	**03/10/2016**
Darparu tai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio	**02/09/2016**
Ymgynghoriad cefndir y Pwyllgor Cyllid cyn Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18	**21/09/2016**
Safonau'r Gymraeg – Gwella gwasanaethau'r sector iechyd i siaradwyr Cymraeg	**14/10/2016**

YMWELD Â'R SENEDD

Roedd cynrychiolaeth dda o'r cymunedau ffydd yn seremoni agor y Pumed Cynulliad ar Fehefin 7. Yn y llun ar y chwith fe welir: y Parch. Gethin Rhys (Cytûn), Mrs Melda Grantham (yr Eglwys Undodaidd), y Barch. Sally Thomas (yr Eglwys Ddiwyigedig Unedig a Cytûn), Mr Saleem Kidwai (Cyngor Mwslimaidd Cymru) a'r Parch. Peter Noble (Caplan Ecwmenaidd Bae Caerdydd).

Ar Fehefin 20 2016 fe drefnodd Cytûn ymweliad â'r Senedd ar gyfer swyddogion eglwys a chymdeithas ein haelodau (Grŵp Laser). Cawsom y fraint o gael tynnu ein llun yn y siambr y tu cefn i ddesg y Llywydd. Yn y llun ar y dde gwelir (o'r chwith i'r dde): Parch. Peter Noble; Sharon Lee (Cyfarwyddydd Housing Justice Cymru); Dave Kitchen (yr Eglwys Fethodistaidd); Parch. Sally Thomas; Yr Uwchgapten David Emery (Byddin yr Iachawdwriaeth); Grace Pengelly (Tîm Materion Cyhoeddus yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Eglwys yr Alban); Parch. Gethin Rhys; Philip Manghan (yr Eglwys Gatholig Rufeinig).
Gallwch drefnu eich ymweliad eich hun ag adeilad hardd y Senedd a dysgu mwy am waith yr aelodau trwy wefan y Cynulliad neu drwy ffonio 0300 200 6565.

DYFODOL YNNI NIWCLEAR YNG NGHYMRU

Cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin adroddiad am ddyfodol ynni niwclear yng Nghymru. Ceir adroddiad cryno a'r adroddiad llawn yn Saesneg ar ei wefan.

Mae'r adroddiad yn gweld potensial mawr i ddatblygu ynni niwclear yng ngogledd Cymru, yn yr Wylfa a Thrawsfynydd. Ond fe ddywed fod gan Lywodraeth y DU fwy i'w wneud i brofi hygrededd ariannol y cynlluniau hyn. Dylai'r Llywodraeth a'r datblygwyr hefyd sicrhau fod cymunedau lleol yn elwa a'u bod yn lliniaru'r effaith y byddai datblygiadau sylweddol i'r seilwaith yn ei achosi.

Dywed y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth adeiladu Wylfa Newydd dim ond os yw pris yr ynni yn is na'r hyn a gytunir ar gyfer Hinkley Point C ac yn gystadleuol ag ynni adnewyddol. Rhaid bod yn dryloyw ynghylch y gost ac esbonio'n llawn cost y cynllun ar hyd ei oes, gan gynnwys dadgomisiynu a gwaredu'r gwastraff.

Nid oes gan y cyhoedd hyder mewn ynni niwclear. Ond mae'r Pwyllgor yn hyderus y gall y Swyddfa Reoli Niwclear (ONR) sicrhau fod ynni niwclear yn y DU yn ddiogel. Ond rhaid i'r Llywodraeth a Horizon Nuclear Power, fydd yn gweithredu'r Wylfa Newydd, wneud mwy i addysgu'r cyhoedd am sut y rheoleiddir ynni niwclear a'i weithredu'n ddiogel yn y DU.

Er mwyn lleihau effaith cau Trawsfynydd ar yr ardal leol, dylid ystyried cynllun dadgomisiynu dros amser. Dylai'r Llywodraeth hefyd gyflymu'r broses ar gyfer dod o hyd i fan addas i waredu'r gwastraff yn ddaearegol fel bod yna gynllun hirdymor ar gyfer cadw'r gwastraff yn ddiogel. Maen nhw hefyd yn argymell dynodi Trawsfynydd yn safle ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bychan, y cyntaf o'i fath.

ARWEINWYR EGLWYSI SYRIA YN YMWELD Â CHYMRU

Yn ystod Mai 2016, fe fu yr elusen Christian Rebuild yn trefnu ac ariannu ymweliad gan ddau o arweinwyr Cristnogol Syria i'r Deyrnas Unedig. Nod yr ymweliad oedd hybu a chodi ymwybyddiaeth o Gristnogaeth hynafol Syria, a hefyd rhoi gwybod i bobl am yr amgylchiadau arswydus sy'n bodoli yno ar hyn o bryd, a'u heffaith ar y boblogaeth Gristnogol. Fe drefnodd Cytûn gyfarfod preifat gydag arweinwyr eglwysig Cymru a chyfarfod cyhoeddus lle cafodd un o'r ymwelwyr adrodd peth o'u hanes dirdynnol.

Mae gan Syria boblogaeth o ryw 20 miliwn o bobl, gyda rhyw 10% ohonynt yn Gristnogion, sef dros ddwy filiwn o bobl. Mae Cristnogion a Mwslimiaid wedi cyd-fyw yn Syria am y 1,400 o flynyddoedd diwethaf. Oherwydd yr amgylchiadau a'r ansicrwydd presennol, mae llawer o Gristnogion yn ansicr pa ddyfodol sydd iddynt yn y wlad hardd a hynafol hon.

Ers dechrau'r rhyfel, mae dros hanner y boblogaeth Gristnogol wedi ffoi o'r wlad. Ond mae llawer o'r Cristnogion sy'n weddill yn benderfynol i aros, a helpu ailadeiladu'r gymdeithas ryfeddol a hanesyddol sydd yno, gan gredu fod Cristnogaeth o hyd yn rhan bwysig o'i dyfodol.

Gallwch ddarllen a chlywed mwy am yr ymweliad yn: http://www.christianrebuild.co.uk/#!syrian-visit-2016/c8k2

"Helpwch ni i Newid y Stori" yw cais Cymorth Cristnogol

Mae'r straeon yr ydym yn eu clywed a'r straeon yr ydym yn eu hadrodd yn bwysig. Maen nhw'n ein helpu ffurfio ein syniadau a'n barn, ac yn gosod yr agenda.

Mae gan wledydd Prydain hanes balch o gynorthwyo ffoaduriaid. Yn y 1930au fe fu i'r Kindertransport achub bywydau plant Iddewig o'r Almaen. Yn y 1970au fe groesawodd y DU pobl o dras Asiaidd o Uganda a oedd yn ffoi rhag gormes Idi Amin, ac yn y 1990au fe fuom yn agor ein drysau i ffoaduriaid o Kosovo.

Heddiw, mae dros 65 miliwn o bobl wedi eu dadleoli ar draws y byd. Wedi eu gorfodi o'u cartrefi trwy drais, ofn, anobaith neu dlodi, mae pob un ar lun a delw Duw, ac yn haeddu diogelwch, rhyddid a gobaith. Mewn cymdeithas a rennir am fater mewnfudo, mae ein neges am ddynoliaeth gyffredin yn bwysicach nag erioed. Ond yn aml fe boretreadir ffoaduriaid mewn ffordd negyddol gan y cyfryngau. Dywedir wrthym eu bod yn llesteirio'n heconomi ac y dylem ofni effaith mewnfudo ar ein cymunedau. Rydym yn clywed lawer iawn llai am y cyfraniadau cadarnhaol a wneir gan ffoaduriaid, sut y maen nhw wedi cyfoethogi ein cymdeithas, ac am barodrwydd pobl leol i groesawu ffoaduriaid.

Mae cymunedau ffydd wrth galon stori wahanol, yn hybu cefnogaeth leol i ddod o hyd i gartrefi ar gyfer pobl a orfodir o'u cartrefi gan drais a gwrthdaro, a sydd bellach mewn sefyllfa ddirdynnol. Ond hyd yma nid yw ymateb Llywodraeth y DU wedi bod yn gymesur â graddfa'r argyfwng, nag â thosturi'r sawl sydd eisoes wedi agor eu cartrefi i ffoaduriaid. Yn hytrach, gwledydd tlawd – megis Libanus ac Irac – sydd wedi croesawu 86% o ffoaduriaid y byd. Mae Cymorth Cristnogol yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddyblu o leiaf nifer y ffoaduriaid o Syria y mae wedi addo eu helpu, a gwneud mwy i sicrhau ffyrdd diogel a chyfreithlon i'r sawl sy'n ffoi rhag trais deithio i a thrwy Ewrop.

Ar 19 Medi 2016 bydd yr Arlywydd Obama yn cynnull uwchgynhadledd i ymgodymu â'r mudo mawr sy'n digwydd, gyda'r nod o ddwyn gwledydd at ei gilydd tu cefn i ymateb mwy dyngarol a chydlynus. Cyn hynny, mae Cymorth Cristnogol yn annog pobl i ddefnyddio'r wasg leol i newid y stori. Gallwch ddarllen mwy yn: www.christianaid.org.uk/changethestory. Gellir cael cyfarwyddyd yn Gymraeg gan swyddfa Cymru - http://www.christianaid.org.uk/cymru/index.aspx?displaylanguage=welsh

Cymru Cefnogol i Ddementia

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae busnesau, grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymuned lleol wedi bod yn cydweithio er mwyn gwneud byd o wahaniaeth i fywydau'r bobl sy'n byw gyda dementia, a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw.

Mae Cytûn yn rhan o Heneiddio'n Dda yng Nghymru, sydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Sefydliad Joseph Rowntree a'r Gymdeithas Alzheimer er mwyn helpu i gefnogi pobl sy'n gwneud Cymru'n genedl o gymunedau cefnogol i ddementia.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi penodi pum Cydlynydd Cymunedol Cyfeillgar i Ddementia i gefnogi gweithredu ar lawr gwlad yng Nghymru. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch chi fod yn fwy cyfeillgar i ddementia, rydyn ni'n argymell eich bod yn cysylltu â'ch cydlynydd lleol:

- **Gwent, Caerffili a De Powys: Ian Thomas**
  ian.thomas@alzheimers.org.uk | 01874 712 083
- **De Ddwyrain Cymru: Rhia Stankovic-Jones**
  rhia.jones@alzheimers.org.uk | 02920 434 960
- **De Orllewin Cymru: Marcia Vale**
  marcia.vale@alzheimers.org.uk | 01269 597 411
- **Trefaldwyn a Sir Faesyfed: Karen Rodenburg**
  karen.rodenburg@alzheimers.org.uk | 01686 629 530
- **Gogledd Cymru: Jo Lane**
  jo.lane@alzheimers.org.uk | 01352 700 728

Heneiddio'n Dda yng Nghymru
Ageing Well in Wales
Rhaglen bartneriaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd ar draws Cymru ac yn Ewrop
A partnership programme for collaborative action across Wales and in Europe

Am ragor o wybodaeth am Gyfeillion Dementia, ewch i www.dementiafriends.org.uk

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia, ewch i www.alzheimers.org.uk/dementiafriendlycommunities

DILYN Y DDEDDF

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cynnwys :

- diffiniad ehangach newydd o ofalwr. Bydd y Ddeddf newydd yn delio â mwy o ofalwyr, megis y sawl sydd ond megis dechrau gofalu, neu sy'n gofalu am gyfnodau byrrach.
- dyletswydd newydd ar yr Awdurdodau Lleol i gynnig asesiadau anghenion gofalwyr.
- dyletswydd newydd i gwrdd ag anghenion gofalwr yn dilyn asesiad, os yw'n gymwys.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn eu lle fel bod gofalwyr yn derbyn y wybodaeth gywir ar yr amser cywir.

Mae Gofalwyr Cymru yn annog gofalwyr i Ddilyn y Ddeddf trwy ateb holiadur syml am eu profiadau dan y drefn newydd.

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN NODER Y CYFEIRIAD E-BOST NEWYDD!!

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062
E-bost: gethin@cytun.cymru **www.cytun.org.uk** **@CytunNew**

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2016.
Cyhoeddir y Bwletin nesaf tua diwedd mis Medi.